

FFURFLEN GAIS DIGWYDDIAD**2020****FFAIR Y NADOLIG, YSTRAD
MYNACH****SADWRN 21 TACHWEDD 2020****Gwybodaeth Masnachwr**

Enw: _____

Enw'r Cwmni: _____

Cyfeiriad E-bost: _____

A yw eich busnes wedi'i leoli yn: -

Bwrdeistref Sirol Caerffili Cymru Y Deyrnas Unedig Y tu allan i'r Deyrnas Unedig **A ydych chi'n bwriadu cynnig alcohol yn y digwyddiad?**

(Noder, caniateir samplau a gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle yn unig. Ni chaniateir gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle oni bai eich bod yn gwneud cais am lain gwin poeth sbeislyd/seidr poeth sbeislyd)

 YDW NAC YDW**Argaeledd Llain a Chostau (Ticiwch y Gofynion)**

Math	Tâl am y Llain	Byrddau	Cyfanswm y Gost
Stondin - 2 metr wrth 2 metr MASNACHWYR BWYD, CREFFT A MASNACHOL	£90 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ddarparu stondin 2 metr wrth 2 metr)	<input type="checkbox"/> Bwrdd £10 yr un 1 <input type="checkbox"/> 2 <input type="checkbox"/>	
Stondin - 2 metr wrth 2 metr CONSESIYNAU BWYD A DIOD (Gan gynnwys gwin/seidr poeth sbeislyd)	£135 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ddarparu stondin 2 metr wrth 2 metr)	<input type="checkbox"/> Bwrdd £10 yr un 1 <input type="checkbox"/> 2 <input type="checkbox"/>	
Llain Ôl-gerbyd (Yn addas ar gyfer busnesau ac adrannau CBSC sydd angen presenoldeb ar safle'r digwyddiad yn eu hunedau ôl-gerbyd eu hunain neu bebyll wedi'u brandio ond nid ydynt yn addas ar gyfer stondinau cyffredinol bwydydd, elusennau a chelf a chrefft masnachol)	£90 (Mae'r pris ar gyfer fesul llain 3 metr wrth 3 metr angenrheidiol (Llain fwyaf yw 9 metr wrth 3 metr)) Stondin/ôl-gerbyd gyda'ch brand eich hun - Rhowch lun a maint yr uned isod Maent yr uned: _____	<input type="checkbox"/> Dd/B	
Consesiwn Llain Ôl-gerbyd (Yn addas ar gyfer busnesau bwyd sydd angen presenoldeb ar safle'r digwyddiad yn eu hunedau ôl-gerbyd eu hunain neu bebyll wedi'u brandio ond nid ydynt yn addas ar gyfer stondinau cyffredinol bwydydd, elusennau a chelf a chrefft masnachol)	£135 3 metr wrth 3 metr (Arwynebedd uchaf 6 metr wrth 3 metr) Stondin/ôl-gerbyd gyda'ch brand eich hun - Rhowch lun a maint yr uned isod Maent yr uned: _____	<input type="checkbox"/> Dd/B	
Llain Symudol 2 berson ar y mwyaf (Gyda'r llain hon, mae'n ofynnol bod	£90	<input type="checkbox"/> Dd/B	

masnachwyr yn gallu symud o gwmpas y safle ac nid oes ganddynt le sefydlog ar safle'r digwyddiad) e.e. dosbarthwr taflenni, masnachwyr yn gweithredu o droli				
--	--	--	--	--

Ystyriaethau Arbennig:

- **Os oes gennych unrhyw geisiadau penodol, fel bod mewn sefyllfa benodol ar safle'r digwyddiad, nodwch isod.** (Er na allwn warantu y byddwn yn gallu cyflawni pob cais, byddwn yn ceisio gwneud hynny'n ystod y camau cynllunio).
- **Os hoffech gael llain ddwbl, h.y. 2 stondin, nodwch yma. (Nodwch ni ellir gwarantu y bydd lleiniau dwbl ar gael).**

Dull talu

Dylai taliadau gael eu gwneud drwy gerdyn credyd/debyd dros y ffôn. Peidiwch â gwneud taliad nes eich bod yn cael eich hysbysu eich bod wedi bod yn llwyddiannus gan y tîm digwyddiadau. Byddwch yn cael pythefnos i wneud taliad ar gyfer y cyfanswm cyfan. Ar ôl pythefnos, bydd eich llain yn cael ei ganslo a'i ailddyrranu.

Cyhoeddir y rhif cyswllt a'r manylion am sut i wneud taliad ar ôl i chi gael eich hysbysu os ydych wedi bod yn llwyddiannus.

Telerau ac Amodau

Dogfennau Ategol a Thaflen Gysylltu

Rhaid i'r daflen gyswllt gyffredinol ynghyd â'r holl ddogfennau ategol gael eu **E-BOSTIO** gyda'r cais hwn. Dim ond un daflen gyswllt ac un set o ddogfennau sydd angen cael eu dychwelyd ar gyfer digwyddiadau 2020 i gyd.

Gwybodaeth Ategol Digwyddiad Penodol

Mae consesiwn yn cynnwys unrhyw fasnachwr sy'n gwerthu bwyd neu ddiod y bwriedir ei fwyta ar y safle.

Ni chaniateir generaduron yn unrhyw ddigwyddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili heb ganiatâd ysgrifenedig trefnydd y digwyddiad.

Caniateir i Unedau Arlwyo a stondinau bwyd gael Gwresogyddion Nwy Petrolewm Hylifedig yn yr uned ond mae'n rhaid iddynt hysbysu'r trefnydd o hyn drwy ei nodi ar eu ffurflen gais.

Amodau Derbyn a Pholisi Rheoli Diogelwch Digwyddiadau

Cyfrifoldeb y standinwyr yw darllen a chytuno â'r telerau a'r amodau o fewn yr Amodau Derbyn a Pholisi Rheoli Diogelwch Digwyddiadau ar gyfer standinwyr cyn gwneud cais am le.

Polisi Dethol Masnachwyr Digwyddiadau

Bydd polisi dethol masnachwyr digwyddiadau mewn lle cyn i'r digwyddiad gymryd lle. I weld copi o'r polisi hwn, e-bostiwch digwyddiadau@caerffili.gov.uk

Indemniad

Wrth dychwelyd y ffurflen hon rydych chi'n cadarnhau eich bod wedi darllen yr Amodau Derbyn a Pholisi Rheoli Diogelwch Digwyddiadau ynghyd â'r telerau ac amodau ar y ffurflen hon a chytuno i indemnio'r trefnydd ynglŷn â'ch presenoldeb yn y digwyddiad yr ydych yn gwneud cais amdano.

Amodau Talu

Wrth dychwelyd y ffurflen hon, rydych yn cytuno i'r wybodaeth isod:

Mae'r taliad drwy gerdyn credyd/debyd a rhaid ei dalu'r swm llawn mewn un taliad gan gynnwys unrhyw ofynion ychwanegol, lle bo'n berthnasol, megis trydan, byrddau a chyfleusterau golchi dwylo.

Ni ddylai taliadau gael eu gwneud nes ein bod wedi cadarnhau bod eich cais wedi llwyddo.

Mae'r ymgeisydd yn cytuno wrth gwblhau'r ffurflen gais a'i dychwelyd, maent yn gofyn i gael eu derbyn yn y digwyddiad uchod. Ar ôl derbyn cadarnhad eu bod wedi bod yn llwyddiannus **rhaid gwneud taliad yn ystod yr amserlen a roddir**. Bydd unrhyw daliadau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad hwn yn arwain at y lle'n cael ei ganslo ac ailddyrranu.

Ar ôl gwneud taliad, os na all masnachwr fynychu'r digwyddiad mwyach, rhaid iddynt hysbysu'r Tîm Digwyddiadau yn ysgrifenedig. Os derbynnir y canslad pythefnos cyn y digwyddiad, bydd ad-daliad yn cael ei wneud a thynnu'r ffi weinyddol o £20. **h.y.. Os bydd digwyddiad yn digwydd ar ddydd Sadwrn 21 Tachwedd rhaid i'r canslad gael ei wneud yn ysgrifenedig erbyn dydd Gwener 6 Tachwedd.**

Bydd unrhyw ganslo a dderbynnir ar ôl y cyfnod rhybudd o 2 wythnos yn golygu bod y taliad llawn yn cael ei fforffedu.

Bydd pob cais aflwyddiannus yn cael ei gadw ar restr wrth gefn er mwyn llenwi cansladau os ydynt yn digwydd.

Gallai methu â mynychu'r digwyddiad heb unrhyw rybudd arwain at gael gwared ar eich manylion o'r gronfa ddata digwyddiadau ac ni ofynnir i chi gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiadau CBSC yn y dyfodol.

Gall methu â chydymffurfio â'r holl delerau talu, yr Amodau Derbyn a Pholisi Rheoli Diogelwch Digwyddiad a pholisi dethol masnachwyr digwyddiadau, olygu bod eich manylion yn cael eu tynnu o'r gronfa ddata digwyddiadau ac ni ofynnir i chi gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiadau CBSC yn y dyfodol.

Ffurflen gofrestru yw hwn ac nid yw'n gwarantu archeb ar gyfer y digwyddiad.

Bydd trefnydd y digwyddiad, ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn ystyried y cais ar gyfer mynychu digwyddiad a bydd hysbysiad o'ch llwyddiant neu fel arall yn sicrhau'ch llain yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Dychwelwch eich cais wedi'i lenwi i:

CaisDigwyddiadau@caerffili.gov.uk